



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Pen Y Pil
Heol Glan-Y-Mor
Tredelerch
Rhymini
Caerdydd
CF3 1RQ**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Pen Y Pil

Lleolir Ysgol Pen y Pil yn Nhredelerch yn nwyrain Caerdydd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 215 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 48 oed meithrin rhan-amser. Trefnir y disgyblion yn 8 dosbarth oed sengl.

Tua 21% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 20% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cymerodd pennaeth ysgol gyfagos gyfrifoldeb dros Ysgol Pen y Pil ym Medi 2017. Mae yna bennaeth mewn gofal sy'n rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r pennaeth gweithredol yn gweithio'n ddiwyd gyda'r staff ac wedi datblygu tîm cryf. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol ac mae yna ymdeimlad o berthyn a pharch rhwng y disgyblion a'r staff. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion a chynigir cefnogaeth lwyddiannus i lawer o ddisgyblion.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol a dangosant falchder tuag at eu gwaith. Mae llais y disgybl yn datblygu'n effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw effaith gadarnhaol y criw 'llais llesol' ar ymddygiad y disgyblion yn ystod amseroedd chwarae. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau'r athrawon i gyd yn sicrhau ymddygiad derbyniol yn ystod gwersi ac nid oes digon o her ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Codi safon iaith lafar disgyblion
- A2 Cysoni disgwyliadau athrawon er mwyn sicrhau ymddygiad da ar lawr y dosbarth
- A3 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol
- A4 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

O oed cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, ond prin yw eu gafael ar yr iaith Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar. Erbyn Blwyddyn 1 mae llawer yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth wneud eu gweithgareddau ac, erbyn Blwyddyn 2, maent yn medru trafod eu gwaith cyfredol â brwdfrydedd. Mae mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau llafar pwrpasol ac maent yn dangos balchder at yr iaith. Maent yn defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae ac yn eu gwersi. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn glir yn Saesneg, ond nid yw hyn mor amlwg yn y Gymraeg. Maent yn awyddus iawn i gyfrannu at drafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa bynciaol gywir, er enghraifft wrth drafod digwyddiadau'r chwedegau.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau i leoli gwrthrych ar fap. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am yr Holocaust.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, gan ddechrau defnyddio cystrawen briodol, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am fwystfilod. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth gymharu'r ystafell ddosbarth heddiw ac yn Oes Fictoria. Maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol mewn amrywiaeth o bynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cyfleu barn yn aeddfed, er enghraifft wrth drafod profiadau hiliol Rosa Parks. Mae safon cyflwyniad gwaith y disgyblion yn amrywio gormod ar draws yr ysgol, gyda dim ond y lleiafrif o ddisgyblion yn gwella eu gwaith yn effeithiol.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth brynu ffrwythau o'r siop chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, o oed cynnar, mae'r disgyblion yn didoli gwrthrychau hydrefol yn ôl eu

maint ac mae disgyblion Blwyddyn 1 yn mesur faint o siwgr sydd mewn diodydd cyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac, erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth brisio nwyddau sy'n cynnig y gwerth gorau am arian wrth gynllunio ar gyfer parti. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn bwrpasol mewn ychydig o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd cyhoeddi i gyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd lliwgar a deniadol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth, er enghraifft wrth ddysgu am welch y pysgod. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno'u gwaith, er enghraifft i hysbysebu'r Himalayas. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data, er enghraifft wrth gasglu tystiolaeth a'i harddangos ar ffurf graff a'i dehongli neu wrth greu cronfeydd data i ddadansoddi tystiolaeth.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae perthnasoedd gweithio cadarn rhyngddyn nhw a'r staff. Mae disgyblion yn gwrtais iawn tuag at staff ac at ei gilydd ac mae bron pob un ohonynt yn garedig a gofalgar. Mae hyn yn amlwg yn ystod amser chwarae pan fydd bydis y buarth yn cynorthwyo'r disgyblion ieuengaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol ac maent yn awyddus i rannu eu barn a'u llwyddiannau gydag ymwelwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda trwy'r amser. Maent yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi ac yn ymdawelu'n gyflym gan weithio'n bwrpasol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd ymddwyn yn briodol, yn enwedig pan nad yw'r tasgau'n ddigon heriol. Mae hyn ar adegau yn amharu ar y disgyblion eraill.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn effeithiol â phrofiadau dysgu ac yn dyfalbarhau'n dda â thasgau dysgu newydd. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn cyfrannu'n effeithiol i'r hyn yr hoffent ei wneud a'i ddysgu, er enghraifft creu clogyn ar gyfer diwrnod arch arwyr. Er nad yw disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu mor aml i'w gweithgareddau, maent wedi dechrau datblygu eu medrau i wella'u gwaith eu hunain yn llwyddiannus ac yn ymateb yn fwy rheolaidd i sylwadau'r athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn frwdfrydig ac yn dechrau cymryd rhan weithredol yn yr ysgol. Mae llysgenhadon y Siarter Iaith, sef grŵp y criw Cymraeg, yn datblygu eu rolau yn dda. Trwy'r cymeriadau 'Seren a Sbarc', maent yn sicrhau bod disgyblion yn hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod cyfnodau egwyl. O ganlyniad, maent yn annog eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn amlach yn ystod gwersi ac yn achlysurol.

Dangosa'r'criw llais llesol' ddealltwriaeth aeddfed o'u cyfrifoldebau a'r effaith maent yn ei chael ar ymddygiad yn ystod amser chwarae. Mae aelodau cyngor yr ysgol wedi dechrau cynrychioli llais y disgyblion yn briodol drwy wella'r amgylchfyd chwarae allanol ac i drefnu dathliad 10 mlynedd yr ysgol. Drwy gynnal sioe ffasiynau flynyddol, mae'r cyngor Eco yn llwyddo i hyrwyddo sut i fod yn gynaliadwy yn bwrpasol. Fodd bynnag, prin yw eu cyfraniad nhw at fywyd yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau entrepreneuriaidd effeithiol drwy redeg caffi i'w rhieni a thrwy addurno a gwerthu crysau 't'. Maent yn cyfrannu'r elw tuag at elusen cancr adnabyddus sy'n cryfhau eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol yn dda.

Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn heini ac iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn addysg gorfforol fel rhan o'u cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol amrywiol, fel pêl-droed a pêl-rwyd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol gydag amrywiaeth o ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i siarad â'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad athro o'r ysgol Gymraeg ym Mhatagonia i siarad am ei fywyd a'i waith yn yr Ariannin.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i'r disgyblion chwarae rôl, er enghraifft fel gofodwyr. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd creadigol o'r ardaloedd awyr agored i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion y cyfnod sylfaen i greu gorchudd i gadw eu banana yn ffres ac i ail-greu golygfa Parc Bute yn dilyn eu hymweliad.

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau cyfrannu tuag at y profiadau dysgu yn seiliedig ar beth a wyddant yn barod a beth hoffent ei ddysgu, er enghraifft wrth drefnu dathliad diwedd yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu dysgwyr annibynnol mor amlwg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd da o gynllunio ar gyfer y fframwaith digidol ac mae'r athrawon yn cynllunio'n gyson ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion. Mae'r athrawon yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn briodol. Mae hyn yn dechrau meithrin ymdeimlad o falchder a gwybodaeth ymhlith y disgyblion ynglŷn â'r ardal leol a diwylliant Cymru. Mae staff yn annog disgyblion i astudio gwaith awduron fel T. Llew Jones ac i ddysgu am dywysogion Cymru wrth ymweld â'r ardal ehangach.

Mae perthynas gadarn rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol. Mae mwyafrif o athrawon yn cynnal awyrgylch effeithiol yn eu dosbarthiadau lle mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu. Maent yn cynnig nod clir i'r wers a chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae llawer o'r

athrawon yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac, ar y cyfan, mae cyflymder y gwersi'n bwrpasol. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a cymorthyddion sy'n darparu cefnogaeth dda er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o'u tasgau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau lleiafrif o athrawon am ymddygiad derbynol gan ddisgyblion yn ddigon uchel. Mae hyn yn amharu ar allu'r disgyblion i gwblhau eu tasgau. Hefyd, nid yw ychydig o'r athrawon wedi mynd i'r afael â sicrhau her bwrpasol i ymestyn yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy galluog.

Mae mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau ac i fyfrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Maent yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant. Yn ddiweddar iawn, mae sylwadau ysgrifenedig llawer o athrawon yn dechrau cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith dilynol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith hon ar safonau disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Maent yn adnabod gofynion addysgol a phersonol disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i nodi'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Drwy nifer o weithgareddau buddiol i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd, mae'r staff yn sicrhau bod pob disgybl yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i lwyddo yn eu dysgu. Mae gan y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau dysgu unigol manwl ac mae'r targedau'n benodol ac yn fesuradwy. Defnyddir cymhorthyddion dysgu yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol i gynorthwyo disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni cymorth yn llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth yn cynorthwyo'r disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a deilliau.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu anghenion emosiynol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu sesiynau swyddogol a sesiynau galw heibio gyda chymhorthydd. Mae'r rhain yn cael effaith llwyddiannus iawn ar godi hyder y disgyblion ac yn eu helpu i ymdopi'n dda gyda bywyd o ddydd i ddydd. Mae rhai o'r disgyblion hyn yn defnyddio eu profiadau personol fel arf i gynorthwyo disgyblion eraill yn ystod amseroedd egwyl yn llwyddiannus.

Mae staff yn creu ethos cynhwysfawr teuluol sy'n sicrhau bod yna barch amlwg rhwng y disgyblion a'r staff. Mae'r staff yn hybu cwrteisi a goddefgarwch ymhlith y disgyblion sy'n adlewyrchu'n dda yn y berthynas rhwng y disgyblion hyn a'r disgyblion ifanc. Cynigir cyfleoedd rheolaidd iddynt i fyfrio ar agweddau moesol drwy sesiynau cylch ac mewn gwersi perthnasol.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, gyda holl aelodau'r staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol, sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth fuddiol. Mae trefniadau llwyddiannus yn cynnwys rhannu taflenni thema tymhorol ynglŷn â gwaith y dosbarth, bod yn weledol ar safle'r ysgol yn ddyddiol a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd iawn trwy gyfryngau cymdeithasol.

Trwy nifer o weithgareddau allgyrsiol a chwricwlaidd, mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn gadarn. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol y disgyblion yn bwrpasol. Mae'r staff yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol, er enghraifft drwy gymharu crefyddau gwahanol. Mae empathi'r disgyblion yn datblygu'n briodol trwy gefnogi elusennau fel Plant Mewn Angen, salwch cancr ieuencid a Cherdyn Coch i hiliaeth. Mae yna drefniadau gwerthfawr drwy'r cwricwlwm a gwasanaethau ar y cyd i hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn dechrau cynnig cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ymgymryd â rolau arweinyddol. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar les y disgyblion ac i fywyd dyddiol yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi aildrefnu strwythur amser cinio sy'n cael effaith gadarn ar les a hapusrwydd bron pob disgybl yn ystod y cyfnod hwn.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn datblygu traddodiad sy'n sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau, canu yng nghôr yr ysgol ac i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hyder disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am artistiaid a chaneuon cyfoes o Gymru, ac mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel Castell Henllys yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes Cymru yn effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth gweithredol yn gweithio'n gydwybodol ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr amser cyfyngedig y mae yn yr ysgol bob wythnos. Mae'n derbyn cefnogaeth effeithiol gan y pennaeth mewn gofal sy'n rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Yn y cyfnod ers ei benodiad, mae'r pennaeth gweithredol wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae wedi datblygu perthynas gadarn rhwng yr holl staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni ac yn rhoi hunaniaeth glir a chyfeiriad amlwg i'r ysgol. Mae'n darparu arweinyddiaeth gref ac yn sicrhau bod yr holl staff yn rhannu eu penderfyniadau i alluogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo ymdeimlad o waith tîm cryf.

Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd yn y strwythur arweinyddol, mae rheolwyr wedi ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau'r staff yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth mewn gofal wedi cryfhau'r ddarpariaeth i wella lles y disgyblion yn effeithiol iawn, ac mae ei rôl strategol yn datblygu'n gadarnhaol. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod yr athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am gynnydd y disgyblion yn eu dosbarthiadau ac yn dechrau gwella'r ddarpariaeth. Gweler effaith dda o hyn ar safonau cyson y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn gwybodaeth am berfformiad y disgyblion ac am sefyllfa ariannol yr ysgol yn rheolaidd. Yn achlysurol, mae'r aelodau'n herio perfformiad yr ysgol am y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched a chwestiynir gwariant ar staff cyflenwi. Mae aelodau o'r corff wedi cychwyn ar y gwaith o ddod i adnabod cyraeddiadau disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol, ond prin iawn maent yn dwyn yr ysgol i gyfri am safonau a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn ddogfen gynhwysfawr ac yn cynnig darlun clir o sefyllfa'r ysgol. Mae amserlen ar gyfer cynnal gweithgareddau hunanarfarnu manwl yn bodoli ac yn cydblethu'n agos gyda meysydd y cynllun gwella. Mae'r uwch dîm rheoli yn craffu ar waith, dadansoddi data, arsylwi gwersi, cynnal teithiau dysgu, a rhannu arferion da. Mae'r adborth o'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella safonau'r disgyblion. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys nifer o flaenoriaethau synhwyrol. Mae'r arweinwyr yn adnabod gweithgareddau pwrpasol er mwyn bodloni'r blaenoriaethau ac yn clustnodi adnoddau a staff yn effeithiol er mwyn eu cwblhau.

Mae prosesau rheoli perfformiad addas gan arweinwyr er mwyn datblygu athrawon a sicrhau gwella ansawdd eu gwaith. Caiff staff fynediad da i ystod berthnasol o ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant defnyddiol. Mae'r ysgol wedi elwa o grant sylweddol er mwyn hyrwyddo cydweithrediad ag ysgol gyfagos. O ganlyniad, mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ysgol bartner, sy'n cychwyn cryfhau eu gallu i wella'r ddarpariaeth wrth gydgyllunio meysydd y cwricwlwm a rhannu arbenigeddau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol yn dechrau addasu eu cynllunio ar gyfer bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae ardaloedd mewnol yr ysgol yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cyfnod sylfaen yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal allanol i hybu creadigrwydd a medrau corfforol y disgyblion. Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus ac effeithiol. Mae penderfyniadau gwariant yn cydfynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ac emosiynol disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2018